# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol Ac Adfywio

## SJR (2)-14-06(p.5)

### Dyddiad: 19 Hydref 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Deddf Arbed Ynni Yn Y Cartref - Adroddiad Ar Gynnydd

#### Dibgn

Diben y papur yw holi barn y Pwyllgor am yr adroddiad y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ei baratoi o dan Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995 (DAYC).

#### Crynodeb

Mae adroddiadau arbed ynni awdurdodau lleol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf wedi nodi'r gallu i sicrhau gwelliant o bron 30% o ran effeithlonrwydd ynni yn y cartref dros 10 mlynedd o 1 Ebrill 1997.

Mae'r adroddiad hwn ar gynnydd, y mae'n ofynnol ei gyhoeddi o dan y Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru), yn ymdrin ?weithgaredd DAYC gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2004 hyd 31 Mawrth 2005 fel y'i cynhwyswyd yn y 7fed Adroddiad ar Gynnydd. Mae'n amlinellu:

cyflwyniad i DAYC;

y canllawiau a'r cymorth a roddir i awdurdodau lleol;

cynnydd blynyddol a chynnydd hyd yma yr adroddwyd arno gan awdurdodau lleol;

materion i awdurdodau lleol yn ymwneud ?hefnogaeth a chymorth.

Mae tystiolaeth o adroddiadau awdurdodau lleol yn awgrymu gwelliant o 6.88% dros yr wyth mlynedd hyd ddiwedd Mawrth 2005. Ni fydd cynnydd ar y raddfa hon yn ddigon i sicrhau'r 30% o welliant posibl a nodwyd yn yr adroddiadau DAYC gwreiddiol.

Nodwyd y diffyg amlygrwydd a roddwyd i effeithlonrwydd ynni gan awdurdodau lleol fel un o'r rhesymau dros y diffyg cynnydd ymddangosiadol hwn. Ysgogodd sylweddoli'r broblem hon yn 2004 Lywodraeth y Cynulliad i gynnwys effeithlonrwydd ynni cartref fel un o'r wyth o fesurau

rhagnodedig o fewn y Cytundebau Polisi a wnaed rhwng Llywodraeth y Cynulliad a phob awdurdod lleol.

Ddiwedd 2003 gwahoddwyd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i ffurfio cytundeb polisi ffurfiol ?lywodraeth y Cynulliad. O dan gytundeb o'r fath mae awdurdodau yn ymrwymo i gyrraedd targedau penodedig ar gyfer gwella gwasanaeth, ac yn cael grant cymell perfformiad heb ei neilltuo (sy'n gyfran fformwla o ?30 miliwn y flwyddyn) yn gyfnewid. O fewn pob cytundeb polisi ceir pecyn o 16 mesur, y mae wyth ohonynt wedi eu rhagnodi (wedi eu gosod gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer pob awdurdod, er bod y targedau'n cael eu trafod ar wah??hob un) ac y mae wyth ohonynt yn lleol (yn cael eu cynnig gan bob awdurdod). Ffurfiwyd cytundeb polisi ?hob un o'r 22 o awdurdodau lleol.

Mae mesurau ynni cartref ymhlith y mesurau a ragnodwyd, sy'n rhan o Gytundeb Polisi Ynni cyffredinol. Er mwyn cynyddu amlygrwydd DAYC, o fewn awdurdodau lleol, dewiswyd adrodd ar gynnydd DAYC fel y dull o osod un o'r targedau yn y Cytundeb Polisi Ynni. Wrth adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol o ran cynnydd DAYC cytunodd y Cynulliad, ?hob un o'r 22 o awdurdodau lleol, ar darged o 12% o welliant mewn effeithlonrwydd ynni cartref o 1 Ebrill 1997 hyd 31 Mawrth 2007.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi ei bod yn dymuno manteisio ar gyfleoedd eraill yn erbyn cefndir Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ynni a Datganiad Llywodraeth y Cynulliad ei hun ar Ynni. Mae'r naill a'r llall yn gweld swyddogaeth allweddol i effeithlonrwydd ynni o ran cyrraedd targedau lleihau carbon yn y tymor canol a'r tymor hir.

Mae’r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth, sydd ? gallu i leihau effaith newid hinsawdd ar y naill law, ac i leihau'r baich ariannol i aelwydydd sydd ag incwm isel gan wella eu hamodau byw, ar y llall. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r cynnydd hwn bydd angen i'r Ddeddf gael ei gweithredu'n iawn ar y cyd ? pholis? eraill Llywodraeth y Cynulliad a'r DU ar gynaliadwyedd, effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd. Daw'r buddsoddi a ddeillia o raglenni effeithlonrwydd ynni ?udd i Gymru o ran cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau gweithgynhyrchu a mewnosod. Mae'n allweddol felly canfod y rhwystrau sy'n llesteirio cynnydd a lle bo angen cymryd camau cywiro.

**Argymhelliad**
**Argymhellir bod y Pwyllgor:**

yn nodi'r cynnydd sy'n digwydd a bwriad Llywodraeth y Cynulliad i fanteisio, ar y cyd ?LILC a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid, ar gyfleoedd pellach i sicrhau mwy o ymrwymiad i wireddu amcanion y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref;

yn nodi'r bwriad i gyhoeddi adroddiad arall ar gynnydd yn 2007, er mwyn cael mwy o wybodaeth am effaith y Cytundebau Polisi Ynni ar gynnydd DAYC.

**Amseru**

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn disgrifio cynnydd dros wyth mlynedd gyntaf gweithredu'r Ddeddf fel

rhan o ymrwymiad statudol Llywodraeth y Cynulliad i adrodd ar gynnydd o bryd i'w gilydd.

## Cefndir

## Cyflwyniad

Cychwynnodd Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995 (y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" neu "DAYC") fel Mesur Aelod Preifat, a gyflwynwyd gan Diana Maddock, AS y Democratiaid Rhyddfrydol dros Christchurch bryd hynny, yn sesiwn 1994/95 y Senedd. Derbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ar 28 Mehefin 1995, a daeth i rym yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar 1 Ebrill 1996. Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol bryd hynny oedi cyn cyflwyno'r Ddeddf yng Nghymru er mwyn i'r awdurdodau unedol newydd gael peth amser i ymsefydlu cyn mynd i'r afael ? dyletswyddau newydd hyn. Dynododd y Ddeddf holl awdurdodau lleol y DU sydd ?hyfrifoldebau dros dai yn "awdurdodau arbed ynni" a sefydlodd nifer o ofynion a dyletswyddau.

Daeth Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995, a Deddf Arbed Ynni 1996, sy'n ei diwygio o ran y diffiniad o "lety preswyl", i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 1997.

Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar bosibiliadau cynyddu effeithlonrwydd ynni yn y stoc dai. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fel awdurdodau arbed ynni gynhyrchu adroddiadau yn nodi mesurau a fyddai'n arwain at welliannau arwyddocaol yn effeithlonrwydd ynni llety preswyl yn eu hardaloedd. Cyflwynwyd yr adroddiadau cyntaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Tachwedd 1997. Gosodwyd targed i awdurdodau lleol o welliant o 30% mewn effeithlonrwydd ynni mewn llety preswyl erbyn 2007 o gymharu ?herfformiad y stoc ar 1 Ebrill 1997. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd a'u hanfon i'r Cynulliad.

Yn ogystal ?ofynion yr amgylchedd, mae effeithlonrwydd ynni mewn tai yn hanfodol i les cymdeithasol ac economaidd pobl sy'n byw yng Nghymru. Mae'n mynd i'r afael ?hlodi tanwydd, yn creu swyddi ac mae'n dod ?udd pwysig o ran iechyd i bobl sy'n byw mewn cartrefi oer a llaith. Gall gynhyrchu gwir arbedion ariannol arwyddocaol a pharhaus trwy filiau tanwydd is. Ceir tystiolaeth bellach o bwysigrwydd y mater hwn yn yr amcangyfrif bod o leiaf 130,000 o aelwydydd Cymru (ar sail Arolwg Byw yng Nghymru 2004), yn dlawd o ran tanwydd. (Yn fras diffinnir tlodi tanwydd fel yr aelwydydd hynny y mae angen iddynt wario dros 10% o incwm yr aelwyd er mwyn cael trefn wresogi foddhaol; er enghraifft, 21?C yn yr ystafell fyw a 18?C mewn ystafelloedd eraill y mae pobl yn byw ynddynt).

Ystyrir awdurdodau lleol yn hwyluswyr newid er mwyn annog perchenogion tai a landlordiaid i fabwysiadu mesurau effeithlonrwydd ynni fel mater o drefn. Nodwyd bod awdurdodau lleol yn allweddol i lwyddiant y Ddeddf. Mae'r amrediad o swyddogaethau a gyflawnant yn eu galluogi i ymateb yn uniongyrchol i farn a dymuniadau lleol, gan roi pwyslais lleol i bolis? cenedlaethol, ac felly roi grym ymarferol i'w cyflwyno. Mae hyn hefyd yn gyson ? dull partneriaeth a ymgorfforir yn Rhaglen y DU ar Newid yn yr Hinsawdd.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod arbed ynni weithredu pob un o'r mesurau y mae wedi eu dynodi. Bydd rhai mesurau y tu allan i reolaeth uniongyrchol awdurdod, fel gwaith ar

dai nad yw'n berchennog arnynt. Un swyddogaeth ganolog i awdurdodau yw annog a chymell perchenogion tai a landlordiaid i ymgymryd ?esurau effeithlonrwydd ynni - gan roi anogaethau, cyngor ac arweiniad i wneud yn siwr y mabwysiedir mesurau, ac y gwireddir yr arbedion o ran cost ac ynni yn sgil hynny.

## Arweiniad

Cyhoeddwyd canllawiau cynhwysfawr i awdurdodau arbed ynni yng Nghymru gan y Swyddfa Gymreig fel yr oedd bryd hynny ym mis Chwefror 1997 fel Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 14/97. Roedd y Cylchlythyr yn canolbwyntio ar baratoi adroddiadau arbed ynni a diffiniodd y term "gwelliant arwyddocaol", at ddibenion y Ddeddf, fel gwelliant o 30% dros 10 mlynedd o linell sylfaen ar 1 Ebrill 1997.

Ym mis Chwefror 1997 darparwyd pecyn taenlen cysylltiedig gan y Swyddfa Gymreig fel yr oedd bryd hynny i bob awdurdod arbed ynni. Roedd y daenlen yn offeryn sylfaenol i alluogi pob awdurdod i asesu perfformiad llinell sylfaen llety preswyl yn eu hardal o ran effeithlonrwydd ynni, a dynodi mesurau a fyddai'n debygol o sicrhau'r gwelliant arwyddocaol yr oedd y Ddeddf yn ei fynnu.

Oherwydd cynnwys amrywiol yr adroddiadau cyntaf ar gynnydd a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gymreig fel yr oedd ym mis Ebrill 1999 mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau pellach ar gynhyrchu adroddiadau ar gynnydd o ran DAYC. Cyhoeddwyd y ddogfen "HECA Report - Checklist of information required" sy'n cynnwys arweiniad pellach ym mis Mai 2000.

Er mwyn rhoi cymorth pellach i awdurdodau arbed ynni baratoi eu hadroddiadau blynyddol gofynnodd y Cynulliad i ymgynghorwyr gynhyrchu canllawiau ac, yn bwysicach, pecyn methodoleg a meddalwedd cysylltiedig yn cynnwys, pe bai modd, dybiaethau safonol. Bydd y pecyn canllawiau a meddalwedd yn galluogi pob awdurdod arbed ynni i asesu effeithiau ei fesurau effeithlonrwydd ynni mewn ffordd fwy cyson a dilysedig. Bydd hyn yn creu mwy o hyder yn yr adroddiadau blynyddol, a hynny i'r awdurdodau unigol ac i'r Cynulliad. Bydd defnyddio meddalwedd yn caniat?dadansoddi a chyfuno rhwyddach ar yr wybodaeth a gynhyrchir gan yr adroddiadau blynyddol ar gynnydd. Anfonwyd y canllawiau a'r meddalwedd ym mis Awst 2001 i bob awdurdod lleol.

## Cymorth Arall i Awdurdodau

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (YAY) gyfrifoldeb drwy'r DU i hyrwyddo lleihau nwyon ty gwydr o'r sector cartrefi a busnesau bach. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio mewn partneriaeth ag YAY Cymru er mis Tachwedd 1999. Mae'r YAY mewn partneriaeth ?lywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi sefydlu swydd gyda CLILC a fydd yn helpu i gydblethu effeithlonrwydd ynni ?trwythur llunio polisi llywodraeth leol yng Nghymru. O ganlyniad i sefydlu'r swydd hon, cyhoeddwyd dogfen ganllaw ar ddatblygu "Polisi Egni ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru" ym mis Ebrill 2004.

Mae rhwydwaith yr YAY o Ganolfannau Cyngor Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru yn darparu cyngor diduedd am ddim i gwsmeriaid yn y sector cartrefi, yn ogystal ?hymorth i swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol mewn perthynas ? hymrwymiadau o ran DAYC. Mae'r ymgyrch "Gofal

piau hi y gaeaf hwn" yn ymdrech gydunol gan yr YAY a nifer o bartneriaid i gydgysylltu mentrau newydd a rhai sydd eisoes ar waith, gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni, ac fe'i hanelir at bobl 65 oed a throsodd. Mae'r YAY hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso Partneriaeth Effeithlonrwydd Ynni y DU ar gyfer Cartrefi, sy'n dwyn ynghyd y sawl sy'n ymwneud ?wahanol agweddau ar effeithlonrwydd ynni.

National Energy Action (NEA) yw'r elusen genedlaethol sy'n datblygu polis? a rhaglenni ymarferol i gywiro safonau gwresogi ac ynysu gwael sy'n brif achos tlodi tanwydd. Yn y flwyddyn 2000 gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad sefydlwyd NEA Cymru gan yr NEA i gydnabod datganoli a'r angen i adlewyrchu problemau a blaenoriaethau Cymru. Yng Nghymru mae'r gweithgareddau cyfredol yn cynnwys datblygu strategaethau Cynhesrwydd Fforddiadwy ynghyd ?yfforddiant/addysg i ategu strategaeth Deddf Cartrefi Cynnes Llywodraeth y Cynulliad. Y cyllid a gymeradwyodd Llywodraeth y Cynulliad i NEA Cymru o 2005/06 hyd 2007/08 fydd ?288,171.

Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref i Gymru (HEES) yw prif raglen Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ynysu cartrefi y deiliaid tai mwyaf anghenus. Ar gyfer 2006/07 a 2007/08 bydd cyllideb flynyddol HEES yn ?19.6 miliwn.

Mae HEES wedi helpu 64,000 o aelwydydd hyd yma. Fodd bynnag, oherwydd ergyd benodol y cynllun ni ddylai awdurdodau lleol ei ystyried yn ffordd ymarferol o gyflawni pob gwelliant o ran effeithlonrwydd ynni a ddisgwylir o ganlyniad i strategaethau DAYC.

Rhaglen gan Lywodraeth y DU yw'r Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni (YEY) (Safonau Perfformiad Effeithlonrwydd Ynni yn flaenorol) sy'n gosod dyletswydd ar gyflenwyr ynni trwyddedig i ariannu mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref y bwriedir iddynt anelu cymorth at bensiynwyr a defnyddwyr sydd ag incwm bychan. Mae'n ofynnol i'r cyflenwyr gyflawni o leiaf 50% o'u hymrwymiadau i gwsmeriaid sy'n derbyn budd-daliadau neu gredydau treth. Ar hyn o bryd mae gan gyflenwyr ynni darged arbed ynni o 130 TWh i'w gyrraedd rhwng 2005 a 2008.

Mae cam cyfredol YEY tua dwywaith lefel y rhaglen YEY flaenorol. Wrth ategu Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Llywodraeth y Cynulliad ei hun, amcangyfrifir y gallai cyflenwyr ynni fuddsoddi tua ?10 miliwn y flwyddyn o dan Gam 2 yr Ymrwymiad yng Nghymru. Mae DEFRA ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol ar ei gynlluniau ar gyfer y cyfnod 2008/11.

## Adroddiadau Arbed Ynni

Roedd yn ofynnol cyflwyno'r adroddiadau arbed ynni cychwynnol a baratowyd gan awdurdodau lleol – sef eu strategaethau mewn gwirionedd – i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd erbyn 30 Tachwedd 1997. Nododd y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol amrywiaeth eang o fesurau arbed ynni, a chadarnhau y byddai modd cyrraedd y ffigur dynodol o 30% o welliant o fewn 10 mlynedd o linell sylfaen 1 Ebrill 1997.

## Adroddiadau ar Gynnydd (Y Cyntaf i'r Seithfed)

Darperir ffigurau allweddol o'r Adroddiad Cyntaf ar Gynnydd hyd y Seithfed yn Nhabl 1 fel atodiad i'r adroddiad hwn.

### Y Seithfed Adroddiad ar Gynnydd (1 Ebrill 2004 hyd 31 Mawrth 2005)

Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad wedi cael 19 adroddiad ar gynnydd, a oedd i fod i gyrraedd erbyn 31 Hydref 2005. Y gwelliant yng Nghymru o ran effeithlonrwydd ynni tai yn ystod 2004/05 oedd 1.23%. Cynhwysir yr amrediad o welliannau yr adroddwyd arnynt gan awdurdodau lleol yn y tabl canlynol:

| % Gwelliant – Amrediad | Nifer yr Awdurdodau yn yr Amrediad |
|---|---|
| 0.01 – 0.99 | 2 |
| 1.00 – 1.99 | 15 |
| 2.00 – 2.99 | 2 |
| Dim Adroddiad | 3 |

Mae graddfa gyfredol y gwelliannau blynyddol yn galonogol. Fodd bynnag, byddai'r gwelliant cyfan o 6.88% ar gyfer wyth mlynedd gyntaf y Ddeddf yn awgrymu na chyrhaeddir y targed 30% o fewn 10 mlynedd ar y raddfa gyfredol. Er mwyn cael effaith ystyrlon ar y targed o 30%, bydd yn rhaid cynyddu cryn dipyn ar weithgarwch effeithlonrwydd ynni ar draws pob sector tai ystod dwy flynedd olaf y Ddeddf.

Ers cyflwyno cytundebau Polisi Ynni Llywodraeth y Cynulliad bu cryn gynnydd yn y gyfradd wella flynyddol o 1.00% i 1.23%. Fodd bynnag, yn ? gyfradd wella gyfredol, mae'n bosibl iawn nas cyrhaeddir targed y Cytundeb Polisi Ynni o 12% erbyn 31 Mawrth 2007 ar gyfer Cymru gyfan. Serch hynny, mae o leiaf hanner yr awdurdodau lleol yn debygol o gyrraedd y targed 12% ar sail eu cynnydd cyfredol.

### Cefnogaeth a Chymorth ar Hyn o Bryd

Dechreuodd Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 yng Nghymru ar 1 Ebrill 2002. Yn ? Ddeddf roedd yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi a gweithredu strategaeth ar gyfer lleihau tlodi tanwydd. Ym mis Mawrth 2003 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei strategaeth, "Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru". Bydd y strategaeth hon yn ceisio dileu tlodi tanwydd mewn aelwydydd sy'n agored i niwed erbyn 2010, a hyd y bo'n rhesymol ymarferol ni ddylai unrhyw aelwyd yng Nghymru fyw mewn tlodi tanwydd ar ?018. Trwy HEES mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod

targed o gynorthwyo 95,000 o aelwydydd erbyn mis Mawrth 2007. (Cyrhaeddwyd y targed o helpu 38,000 o aelwydydd agored i niwed trwy HEES erbyn mis Mawrth 2004).

Gosododd Safon Ansawdd Tai Cymru, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Ebrill 2002, y flwyddyn 2012 yn ddyddiad targed ar gyfer gwella'r holl dai cymdeithasol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r Safon hon yn nodi y dylai cartrefi fod wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi eu hynysu'n dda. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol amcangyfrif y defnydd blynyddol o ynni ar gyfer gwresogi lle a dwr gan ddefnyddio'r dull SAP (Gweithdrefn Asesu Safonol) ac mae'n dynodi'r cyfraddau isaf y dylid eu sicrhau.

Amcangyfrifodd Arolwg Byw yng Nghymru 2004 bod 110,000 o aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd, a gall llawer o'r rhain elwa ar fesurau HEES ar gyfer gwresogi ac ynysu. O'r rhain, nid yw nifer arwyddocaol yn gallu cysylltu ar hyn o bryd ?146;r rhwydwaith nwy (bydd data ar gael yn dilyn dadansoddi pellach ar Arolwg Byw yng Nghymru 2004 yn ddiweddarach eleni; amcangyfrifwyd mai 47,000 oedd y nifer yn 1998). At hynny, mae gan lawer o adeiladau waliau solet ac felly nid ydynt yn addas ar gyfer ynysu wal geudod. Ar hyn o bryd, prin yw'r cymorth sydd gan HEES ar gyfer yr adeiladau hyn sy'n "anodd eu gwresogi". Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar wedi penderfynu y dylid dod ag olew i mewn i'r cynllun a bydd yn peilota mesurau amgen gan gynnwys technolegau adnewyddadwy gyda golwg ar ehangu'r amrediad o gymorth a gynigir.

Mae 396 o aneddiadau yng Nghymru sydd ?50 neu ragor o breswylfeydd, nad ydynt wedi eu cysylltu ? rhwydwaith nwy. Fodd bynnag, mae nifer o brosiectau arloesol i ymestyn y rhwydwaith nwy eisoes wedi eu cwblhau yn Llai ac yn Stad Mount yn Aberdaugleddau. O dan HEES gall Llywodraeth y Cynulliad ariannu rhai o gostau cysylltu aelwydydd cymwys ?wy. Defnyddiwyd y pwer hwn i gysylltu aelwydydd cymwys ? rhwydwaith newydd yn Llai ac Aberdaugleddau. Mae prosiect arall bellach ar y gweill i ymestyn y rhwydwaith nwy i dros 100 o gartrefi ym Modelwyddan yn sir Ddinbych.

## Goblygiadau Ariannol

Telir am yr holl wariant allan o'r cyllidebau a gymeradwywyd eisoes gan Lywodraeth y Cynulliad.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a'r argymhellion.

Enw: Mrs Edwina Hart
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Swyddog Cyswllt: Mr Francois Samuel, Y Gyfarwyddiaeth Dai
Ff?029 2082 6903

## Atodiad: Tabl 1 – Manylion Y Cyntaf  I'r Seithfed O'r Adroddiadau Ar Gynnydd O Ran Dayc

| Adroddiad Ar Gynnydd | Blwyddyn (Blynyddoedd) A Gwmpesir | Adroddiadau A Dderbyniwyd | Ni Dderbyniwyd Adroddiadau | % Cyffredinol Gwelliant Blynyddol | % Gwelliant Cronnus |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyntaf | 1/4/97 – 30/11/98 | Gweler Nodyn 1 | Gweler Nodyn 1 | Gweler Nodyn 1 | Gweler Nodyn 1 |
| Ail | 1/4/97 – 31/3/00 | 16 | 6 | 2.25* | 2.25 |
| Trydydd | 1/4/00 – 31/3/01 | 18 | 4 | 0.74 | 2.99 |
| Pedwerydd | 1/4/01 – 31/3/02 | 20 | 2 | 0.90 | 3.89 |
| Pumed | 1/4/02 – 31/4/03 | 20 | 2 | 0.76 | 4.65 |
| Chweched | 1/4/03 – 31/4/04 | 15 | 7 | 1.00 | 5.65 |
| Seithfed | 1/4/04 – 31/4/05 | 19 | 3 | 1.23 | 6.88 |

### Nodiadau

At ei gilydd roedd ansawdd y mwyafrif o'r Adroddiadau cyntaf ar Gynnydd yn siom. Oherwydd prinder yr wybodaeth yn yr Adroddiadau Cyntaf ar Gynnydd roedd yn amhosibl cyflwyno adroddiad cyfunol i Lywodraeth y Cynulliad.

* Y cyfanswm ar gyfer tair blynedd gyntaf cylch adrodd DAYC yw'r ffigur o 2.25%. Canran flynyddol amrwd ar gyfer y tair blynedd gyntaf hynny fyddai 0.75%.